

24 Awst 2020

Mae cwmni Alun Griffiths (Contractwyr) Cyf wedi'i benodi gan Ymgynghoriaeth Gwynedd (Cyngor Gwynedd) fel y Prif Gontractwr i ymgymryd â gwaith ar Gynllun Lliniaru Llifogydd Rhostryfan.

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 21 Awst 2020, rydym wedi gwrandao ar bryderon preswylwyr ynglyn â mynediad i'w cartrefi ac o ganlyniad byddwn yn newid ein dulliau gweithio i sicrhau y bydd mynediad i gerbydau ar gael tra bu'r gwaith ychwanegol yn cael ei gwblhau wrth y gyffordd â Bro Wyled. Bydd platiau ffyrdd yn cael eu gosod pan fydd angen mynediad ond hoffwn eich rhybuddio y gall gosod y platiau gymeryd hyd at 10 munud bob tro, fe fyddwn felly yn gwerthfawrogi unrhyw rybudd ymlaen llaw o'r angen am fynediad, lle bo hynny'n bosibl.

Bydd y gwaith yn dechrau yr wythnos hon, ond ar hyn o bryd ni allwn ragweld faint o amser y bydd y gwaith hwn yn ei gymeryd, gan y bydd hyn yn dibynnu ar sawl gwaith y bydd angen i'r gwaith cael eu ohirio yn gyfnodol er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau. Disgwylir, wedi'r gwaith hyn ddechrau, y bydd y gyffordd yn cael ei ail agor dros dro ar ddiwedd bob dydd.

Gallwn gadarnhau ein bod wedi cysylltu â'r gwasanaethau brys i sicrhau bod mynediad ar gael, ar unwaith, ar gyfer cerbydau brys.

Ymddiheurwn am yr anghyfleustra y bydd y gwaith hwn yn sicr o achosi a gofynnwn i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw anghenion mynediad penodol yn ystod y cyfnod hwn. Cofiwch y byddwn yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mor gyflym a diogel â phosibl i ganiatáu ailagor y gyffordd yn llawn

Yn gywir

*Mandy Evans*

Mandy Evans  
Swyddog Cyswllt Cymunedol  
Ar gyfer ac ar ran Alun Griffiths (Contractwyr) Ltd

03300412185  
mandy.evans@alungriffiths.co.uk